**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

John Griffiths AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Rhagfyr 2017

Annwyl John,

Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr, trafododd y Pwyllgor Busnes gynnig gan Lywodraeth Cymru i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (LCM) ar y Bil Canllawiau Ariannol a Hawliadau i bwyllgor i graffu arno cyn dyddiad arfaethedig y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Ionawr. Gan mai eich Pwyllgor chi a adroddodd ar y Memorandwm gwreiddiol ar gyfer y Bil hwn, a dyma'r Pwyllgor y byddai'r Memorandwm atodol yn cael ei gyfeirio ato, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â chi ar y dull hwn.

Seiliwyd y cynnig hwn ar wybodaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU ynghylch yr amserlen debygol ar gyfer deddfu'r Bil drwy Dŷ'r Cyffredin (ar ôl bod drwy Dŷ'r Arglwyddi eisoes) na fyddai'n caniatáu amser ym marn y Llywodraethau i graffu yn y pwyllgor. (Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiad eisoes i'r Pwyllgor Busnes y bydd yn anelu at ganiatáu 6 wythnos eistedd ar gyfer craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol).

Dywedodd y Clercod wrth y Pwyllgor Busnes mai eu dealltwriaeth yn dilyn trafodaethau â Swyddfa Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin yw y gallai fod amser i graffu mewn pwyllgor gan fod yr Ail Ddarlleniad yn annhebygol o ddigwydd tan ar ôl y Nadolig, ac y bydd Cyfnod Pwyllgor a Chyfnod Adrodd ar ôl hynny, ac efallai y caiff y Bil ei ddal yn ôl gan y rhagwelir newidiadau pellach.

Byddai o gymorth i'r Pwyllgor Busnes pe gallech nodi a fyddai'r Pwyllgor yn gallu cwblhau ei waith craffu mewn amserlen fer pe bai amser ar gael. Os nad oes amser ar gael ar gyfer y gwaith craffu hwn, bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried a ddylid cynnal dadl hirach nag arfer arno yn y Cyfarfod Llawn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech drafod hyn gyda'ch Pwyllgor ac ymateb i mi erbyn 8 Rhagfyr fel y gall y Pwyllgor Busnes ystyried eich barn wrth wneud

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

penderfyniad terfynol yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403